

Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll
Cofnodion Cyfarfod 17^{eg} Rhagfyr 2013

Presennol: A. Mummery, A. Jones, J. Roberts, G. C. Jones, A. Thomas, A. Williams, Mervyn Jones, G. Parry, E. Parry Croesawyd A. Williams a Mervyn Jones yn ôl yn dilyn eu cynod yn yr ysbyty.

1. Ymddiheuriadau: Meirion Jones, D. Williams, H. Huws, B. Jones. Cynghorydd Sirol J. Evans

2. Datganiadau Diddordeb - Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau diddordeb.

3. Materion y Cyngor Sir

3.1 Llinellau melyn ger Crossing Terrace – y mater yn parhau i fod dan sylw.

3.2 Gordyfu ger y bon ti Star wedi'i dorri.

3.3 Rhesymoli ysgolion cynradd yn symud ymlaen.

3.4 Cartrefi henoed – cyfarfod pellach yfory.

Nodwyd bod y cwt tractor wedi'i dorri mewn iddo yn ddiweddar ond nid oedd unrhyw beth wedi'i ddwyn. Yr Heddlu'n ymwybodol.

Y fferyllfa hefyd wedi'i dorri mewn iddo neithiwr.

4. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion 26^{ain} Tachwedd 2013

Cynigwyd gan J.Roberts ac eiliwyd gan E. Parry. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion

5.1 Cynllun Adfywio Pentrefol – Disgwyl cyfarfod gyda Brian Owen ynglyn a'r asesiad risg. Rhosys i'w planu dechrau'r flwyddyn newydd.

5.2 Swydd y Clerc i'w hysbysebu eto ym mis Ionawr.

5.3 Ffair Aeaf – Llongyfarch y rhai a fu'n trefnu'r digwyddiad. Gofyn am gyfarfod gyda'r asiantaethau sy'n ymwneud a'r ffair er mwyn sicrhau bod un pwyllgor yn cymryd cyfrifoldeb llawn am y diwrnod. Y Cyngor Bro i gyd weithio a'r pwyllgor ond ddim yn cymryd cyfrifoldeb am redeg y digwyddiad.

5.4 Y goeden nadolig i'w thynnu lawr yn ystod y gwyliau.

5.5 Disgwyl ymateb gan y Cynulliad ynglyn a chanlyniad yr ymgynghoriad trydydd pont dros y Fenai. Teimlwyd nad oedd cefnogaeth cryf i'r syniad os bydd cost i Ynys Môn on yn fodlon ei dderbyn os bydd yn cael ei gyllido gan y Llywodraeth.

6. Cofnodion Pwyllgor Amgylchedd ac Eiddo 3^{ydd} Rhagfyr Tachwedd 2013

Cynigwyd gan A. Jones. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

7. Materion yn codi o'r cofnodion

2.1 Trafodwyd y syniad o brynu bracedi i osod ar byst golau ar gyfer baneri i hysbysebu digwyddiadau. Cytunwyd i'r Clerc eu prynu.

2.2 Heb gael ymateb gan Jones Peckover ynglyn a chyflwr Twr Marcwis.

2.3 Maes Parcio'r Gors – gofyn i Huw Percy, CSYM am fwy o fanylder ar yr opsiynau.

2.4 Maes Parcio'r ffeddygfa – Y Clerc i gysylltu a rheolwr y ffeddygfa ynglyn a'r syniad o greu maes parcio tu ôl i'r adeilad.

8. Ceisiadau Cynllunio

31C412 49 Ty Croes – dim sylw

31C413 19 Ffordd Angharad – dim sylw

Bryn Eryr – er gwybodaeth yn unig.

9. Cyfrifon mis Rhagfyr 2013

Cyflwynwyd taenlen mis Rhagfyr gyda rhestr taliadau a derbyniadau.

Nodwyd bod taliad o £6,000 o gyfruiif y Neuadd Goffa i gwmni Dewis. Hyn ar gyfer paratoi dogfennau tendr.

Cynigwyd gan A. Jones ac eiliwyd gan A. Williams. Derbyniwyd y cyfrifon a chytunwyd i'r taliadau.

10. Gohebiaeth

10.1 E. Bost gan Alun Mathias, arbennigwr TAW yn dilyn ein cyfarfod diweddar. Cytunwyd i dderbyn cynnig Mr Mathias i ymchwilio ar ran y Cyngor Bro y ffordd orau i ddelio gyda TAW pan yn symud ymlaen i adeialdu'r Neuadd Goffa newydd.

10.2 CSYM – angen gosod prise bar gyfer 2014/15 erbyn 14eg Chwefror.

10.3 Y Cyngor Bro wedi derbyn “unilateral notice” ar y fynwent. Y Clerc i yrru ffurflle UN4.

10.4 CSYM – penderfyniadau cynllunio

10.5 Llythyr gan ffrindiau parc y gorsy n diolch am y rhodd o £100.

10.6 Twristiaeth Môn – ymateb i lythyr a anfonwyd mis mis diwethaf.

10.7 Nodwyd bod cyfarfod cyhoeddus gwrth beilonau i gymryd lle 24ain Ionawr am 7.00 yn festri'r capel.

11. Unrhyw Fater Arall

11.1. Pwyllgor safonau – nodwyd bod 447 o gynghorwyr tref a chymuned ym Môn. Y Pwyllgor wedi derbyn 3 cwyn yn erbyn cynghorwyr.

11.2 Hysbysfwrdd – y clerch i osod y cofnodion diweddar.

11.3 Nodwyd bod cyfres Bedwyr Rees ar y teledu'n ddiweddar yn rhoi'r argraff mai dim ond un pont, sef Pont Borth sydd yn croesi i' Môn. Y Clerc i ysgrifennu at y Cyngor Sir yn mynegi siom nad oedd son am Bont Britannia na Llanfairpwll.

11.4 Giat i'r Gors yn llac. y Clerc i ofyn i Andre gael golwg arno.

11.5 Safle we – bydd angen penderfyniad ym mis Ionawr ynglyn a pha gwmni mae'r Cyngor bro am ddewis i greu safle we newydd. Mae'r grant o £500 ar gael gan y Cyngor Sir sir hyd at 31 Mawrth 2014.

11.6 Cwrs Côt Ymddygiad – nodwyd mai ychydig iawn o Gynghorwyr Tref a Chymuned sydd wedi mynychu'r hyfforddiant. Y Clerc i geisio trefnu hyfforddiant i holl aelodau'r Cyngor Bro.

Dymunwyd nadolig llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Dyddiad cyfarfod nesaf - Nos Fawrth 28^{ain} Ionawr 2014 am 7.00 yn y Neuadd Goffa.

Arwyddwyd (Cadeirydd)Dyddiad